Addysgu a dysgu dwyieithog ar gyfer y Gymru gyfoes.
Gwesty'r Metropole, Llandrindod, Dydd Iau, 30 Ebrill 2009

Cyflwyniad Dylan Vaughan Jones, Coleg Prifysgol y Drindod.

Llythreneddau dwyieithog, ymchwil ac addysg athrawon	**Bilingual literacies, research and teacher education**
Dylan Jones Coleg Prifysgol y Drindod	**Dylan Jones Trinity University College**

Diolch yn fawr am y cyflwyniad ac am y cyfle i gyfrannu i'r gynhadledd. Mi hoffwn hefyd longyfarch Marilyn a'i thîm ar y gwaith ymchwil y clywsom amdano cyn y coffi, mi ddof yn ôl at hyn yn y man.

Wrth fynd ati i feddwl am union natur fy nghyflwyniad, man cychwyn naturiol oedd ystyried yr hyn y bydd siaradwyr eraill yn debygol o'i gyfrannu heddiw a cheisio adnabod yr hyn y gallaf i ei gynnig a fydd, gobeithio, yn cyfrannu at y dydd yn ei gyfanrwydd. I'r perwyl hynny, 'dwi am geisio tynnu ychydig ar fy mhrofiad fel hyfforddwr cychwynnol athrawon yn ogystal â fy niddordeb a phrofiad fel ymchwilydd.

Fel sydd eisoes wedi cael ei nodi' 'rwy'n bennaeth ar Ysgol Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon yn Ngholeg Prifysgol y Drindod – neu Coleg Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant fel ag yr ydym yn debygol o gael ein hadnabod cyn bo hir, ac 'rwyf wedi bod yn ymwneud â hyfforddiant athrawon ers peth amser erbyn hyn. 'Rwyf hefyd, dros y blynyddoedd, wedi ymddiddori mewn agweddau ar addysg ddwyieithog a dysgu, addysgu ac asesu mathemateg yn fwyaf arbennig, o fewn y cyd destun hynny. Mi fydd yr hyn y bydd gennyf i'w ddweud yn tynnu ar y profiadau a'r diddordebau hynny.



'Dwi'n bwriadu cynnig ychydig o sylwadau mewn perthynas â phedair thema.

- yn gyntaf, dwi am wneud un neu ddau o sylwadau mewn perthynas â **canfyddiadau yr ymchwil y mae Marilyn** a'i thîm wedi ei gyflawni ac yr ydym wedi clywed amdano yn ystod yr awr ddiwethaf.

- mi ydw i am ddweud ychydig am y pwyslais cynyddol sydd ar **ymchwil o fewn addysg cychwynnol athrawon** – pam fod hynny a beth yw oblygiadau hynny

- 'rwyf wedyn am droi at broblem sydd gennym yn Nghymru ar hyn o bryd o ran ein **gallu neu yn hytrach, ein diffyg gallu i gyflawni gwaith ymchwil** – i'r rhai ohonoch sydd ddim yn gyfarwydd â'r 'broblem' - cyfeirir ati fel un o ddiffyg 'capacity' i wneud gwaith ymchwil – neu *lack of research capacity*. Er mai athro mathemateg oeddwn i flynyddoedd yn ôl – gallaf eich sicrhau nad problem am ddŵr yn llifo i fath ar raddfa arbennig yw'r broblem 'capacity' hyn – a dweud y gwir, mae'n debycach i broblem sy'n ymwneud â dwr yn diflannu i lawr y draen a'r bath yn prysur oeri.

- yn olaf, 'rwyf am awgrymu fod gwir **angen llunio agenda** ymchwil ar gyfer Cymru ddatganoledig ac am fod yn ddigon digywilydd i nodi **rhai blaenoriaethau** a ddylai fod ar yr agenda hynny– fel ag yr wyf i yn eu gweld. Dwi'n siŵr y bydd siaradwyr yn nes 'mlaen yn y dydd yn dod yn

ôl at rai o'r themâu hynny ac y bydd cyfle i drafod rhai ohonynt ymhellach y prynhawn 'ma.

Canfyddiadau'r prosiect	Project findings
Technolegau newydd a lythrennedd ffurfiol	Newer technologies and formal literacy
Defnyddio ein dwyieithrwydd	Using our bilingualism

Mae Marilyn eisoes wedi disgrifio'r ymchwil a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yng Ngholeg Meirion Dwyfor a rhai o ddeilliannau yr ymchwil hynny. Mae'n debyg fod gwahanol agweddau ar y gwaith o ddiddordeb, mewn gwahanol ffyrdd i wahanol bobl. Mae yna ddwy agwedd ar y gwaith a wnaeth fy nharo i yn fwyaf arbennig:

Yn gyntaf, tanlinellodd y gwaith cyn gymaint y mae pobl ifanc yn **defnyddio technoleg newydd** ar gyfer cyfathrebu a'r arferion cyfathrebu y mae'r dechnoleg yn ei annog. Mae gen i dri o fechgyn yn eu harddegau fy hunan ac wrth sefyll yn ôl am eiliad – mae rhywun yn gweld fod yna wir agendor rhwng yr hyn y maent yn ei wneud yn yr ysgol – ym maes llythrennedd, ar hyn y maent yn ei wneud wrth gyfathrebu gyda'u ffrindiau neu wrth ymlacio.

Un munud, wrth adolygu ar gyfer TGAU neu lefel A maent yn dadansoddi cerddi neu'n trafod cymeriadau a phlot. Y munud nesaf maent yn tecstio'u ffrindiau ar eu ffonau symudol, yn cysylltu â nhw ar Facebook neu yn darllen y newyddion chwaraeon diweddaraf ar wefan y BBC. Mae yna fwlch anferth rhwng eu gwaith llythrennedd 'academaidd' a'u hymarferion cyfathrebu bob dydd a dwi'n credu ei bod hi'n briodol iawn i ni holi os oes modd cau ychydig ar y bwlch hynny.

Yr ail beth oedd yn fy nharo am waith ymchwil Marilyn a'i thîm oedd fod rhai o'n pobl ifanc yn byw **bywyd gwir ddwyieithog** – yn defnyddio eu dwyieithrwydd yn gwbwl naturiol – boed hynny yn sgwrsio, ffonio, tecstio, bilio, neu ebostio. Mae'n wir dweud fod rhai o'r bobl ifanc a welsom yn y DVD yn byw mewn cymdeithasau sy'n prysur ddiflannu o ran cyfoeth eu Cymreictod - ond rydym i gyd yn byw mewn cymdeithasau ble yr ydym yn dod ar draws y ddwy iaith - rhai ohonom i raddau mwy nag eraill efalle.

Tra bod nifer ohonom fel unigolion yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr wrth ochr ac yn aml ar yr un pryd fodd bynnag, mae yna dueddiad o fewn ein cyfundrefn addysg i orfodi dysgwyr i ddewis y Gymraeg neu'r Saesneg – ac yn aml mae yna resymau da iawn am hynny. 'Rwyf yn bersonol o'r farn, fodd bynnag, fod modd gwneud mwy i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr o fewn yn ein cyfundrefn addysg. Mi ddof yn nol at hynny nes 'mlaen.

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Ymchwil ag addysg athrawon	Research and teacher education
Dulliau addysgu	Teaching methods
Dysgwyr gydol oes	Lifelong learners
Ymarferwyr adfyfyriol	Reflective practitioners
MTL a DPP	MTL and CPD

Nesaf, mi hoffwn droi at rôl **ymchwil o fewn hyfforddiant cynhwynol a datblygiad pharhaus athrawon.**

Mae'n bosibl fod y rhan fwyaf ohonoch wedi dilyn cwrs hyfforddi athrawon ar ryw adeg neu gilydd. Mae yna ugain mlynedd er i mi ddechrau gweithio fel darlithydd yn Adran Addysg Prifysgol Aberystwyth a bu cryn newid ar bethau ers hynny.

Un o'r newidiadau mwyaf yr wyf wedi ei brofi yw'r newid mewn dulliau dysgu ac addysgu. Bu newid sylweddol yn y ffordd yr ydym yn meddwl am ac yn rhannu **gwybodaeth**. Ar ddechrau fy ngyrfa, byddwn yn treulio amser hirfaith yn cywain gwybodaeth ar gyfer ei rannu gyda myfyrwyr. Erbyn hyn, wrth gwrs, mae'r wybodaeth yno i ni gyd - dim ond i ni bwyso botwm. Fel athrawon eraill mewn ysgolion a cholegau, gwelaf fy hun fwyfwy fel un sy'n hyrwyddo'r dysgu yn hytrach na chyflwyno gwybodaeth ac mae hyn yn newid pwysig.

Yn y Drindod, er enghraifft, rydym yn rhoi cryn bwyslais ar ddulliau 'Dysgu wedi ei seilio ar Broblemau' / 'Problem Based Learning' ble y mae myfyrwyr yn cael ryw senario ac yn gorfod cael gafael ar y wybodaeth sydd angen arnynt, eu hunain – cyn ei ddehongli a'i gymhwyso i'r broblem dan sylw.

Mae'r newid pwyslais hyn – oddi wrth ddysgu gwybodaeth a thuag at ddatblygu sgiliau, wrth gwrs, yn digwydd ar bob lefel ac yn rhan o'r broses o ddatblygu'r sgiliau i fod yn dysgwyr gydol oes.

Fel rhan o'r broses hon, mae colegau, fel ag yr ydym ni yn y Drindod, yn rhoi mwy o gyfle i hyfforddeion nid yn unig i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ond hefyd yn ceisio eu hannog i fod yn ymchwilwyr yn ogystal ag yn ymarferwyr adfyfyriol.

Mae dyfodiad y radd Meistr mewn Addysgu a Dysgu neu'r *Masters in Teaching and Learning* – yr MTL yn Loegr yn rhan o'r broses o geisio symud tuag at broffesiwn ble y mae pob athro wedi eu hyfforddi hyd at lefel Meistr ac yn meddu ar y sgiliau i ystyried yn ddyfnach eu hymarfer mewn perthynas â'r hyn a wyddom am y ffordd mae plant yn dysgu. Mae' gallu i ymchwilio yn rhan bwysig o hynny. 'Rydym, yn y Drindod, newydd ddilysu rhaglen Meistr newydd, sy'n adleisio'r MTL, ac sydd wedi ei hanelu at athrawon newydd gymhwyso yn ogystal ag ymarferwyr profiadol. Tybiaf y bydd mwy o ddiddordeb mewn rhaglenni o'r fath yn ystod y blynyddoedd nesaf fel rhan hyfforddiant cychwynnol athrawon yn ogystal a'u Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Y gallu i wneud ymchwil		
Ymarferiad Asesiad Ymchwil (YAY)		
RAE 1996	-	104
RAE 2001	-	77
RAE 2008	-	37

Research capacity		
Research Assessment Exercise (RAE)		
RAE 1996	-	104
RAE 2001	-	77
RAE 2008	-	37

Mi hoffwn nawr droi at rywbeth sy'n destun pryder.

Mae'n debyg ein bod ni oll yn gytun fod yn yna angen am ymchwil addysgol yng Nghymru – ar ddwyieithrwydd yn ogystal ag agweddau eraill ar bolisi ac ymarfer – ac yn enwedig felly o fewn Cymru ddatganoledig ble y mae yna bellter cynyddol rhwng polisi ac ymarfer yma a dros glawdd Offa. Mae gwaith Marilyn a'i thîm yn dangos unwaith eto sut y gall ymchwil ychwanegu at ein gwybodaeth o'r hyn sy'n ganolog i bobl ifanc.

'Rwyf hefyd wedi tynnu eich sylw at y pwyslais cynyddol sydd yna – ar bob lefel – i ddatblygu dysgwyr gydol oes a phroffesiwn o ymarferwyr adfyfyriol; sy'n ymwneud â gwaith ymchwil eu hunain yn ogystal â gweld gwerth mewn gwaith ymchwil eraill.

Yr hyn sy'n tristau rhywun yw'r ffaith fod ein gallu i ymgymryd â gwaith ymchwil addysgol o fewn ein prifysgolion yn prysur edwino.

Mae sefydlu Canolfan yr ESRC dros Ymchwil i Theori ac Ymarfer Dwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor yn datblygiad pwysig ac 'rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn croesawu sefydlu'r ganolfan, ond ag eithrio'r datblygiad hynny, mae'n ein gallu i ymgymryd â gwaith ymchwil addysgol o fewn ein prifysgolion mewn sefyllfa argyfyngus.

Mae'n bosibl fod nifer ohonoch wedi clywed am yr Ymarferiad Asesiad Ymchwil - RAE – ble yr asesir prifysgolion, adrannau ac unigolion yn erbyn eu cynnyrch ymchwil. Dros y 12 mlynedd diwethaf gwelwyd dirywiad sylweddol yn y nifer yr ymchwilwyr mewn prifysgolion yng Nghymru sydd wedi bod yn rhan o'r broses – mewn perthynas â maes Addysg. Gwelir y ffigurau sydd ar y sleid. Hynny yw, dyma'r nifer o ymchwilwyr ym maes addysg o fewn ein prifysgolion sydd wedi cyhoeddi' n sylweddol yn ystod y tri asesiad diwethaf.

Nid yw'r ffigurau moel yn dweud y stori i gyd ond yn sicr mae gennym broblem fel cenedl, o ran ein gallu – 'yr hyn sy'n cael ei alw'n 'capacity' - i wneud ymchwil addysgol.

Mae'r sector yn ymwybodol iawn o'r broblem ac mae yna ymdrechion i wneud rhywbeth am y peth – yn fwyaf arbennig yn ddiweddar, drwy sefydlu Rhwydwaith Ymchwil Addysg Cymru (RHYAC) ond mae arnaf ofn na fydd WERN ynddo'i hyn yn achub y sefyllfa.

Dyma ffigurau a gyflwynwyd gan John Gardner o Brifysgol Queen's yn Belfast ychydig wythnosau yn ôl yn yr union westy hwn.

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

John Gardner

Ymchwil Addysgol yng Nghymru
Cynhadledd RhYAC

Educational Research in Wales
WERN Conference, Llandrindod Wells 24/3/09



Dyma'r ffigurau a ddangosais ar y sleid flaenorol – ar ffurf graff

Y ffigurau hyn (mewn du) yw'r nifer o ganolfannau neu golegau oedd yn rhan o'r broses

Mae yna ffactorau, megis canoli arian ymchwil mewn llai o brifysgolion, wedi cyfrannu at y broblem ond gellir gweld o'r graff hwn fod gennym broblem yn y maes yma.

Dydw i ddim am fynd 'mlaen am hyn – mae nifer ohonom wedi bod mewn cynadleddau sy'n gwneud dim ond trafod y broblem yma a sut y gellid mynd ati i'w datrys. Mewn cynhadledd sy'n dathlu pwysigrwydd ymchwil addysgol ac yn ymwneud ag ymchwil i addysg ddwyieithog yn benodol, teimlaf mai priodol i'w cyfeirio at y ffaith fod y nifer o ymchwilwyr gweithredol sydd gennym ym maes addysg yn dirywio'n gyflym. Os yw'r sefyllfa'n bryderus o ran ymchwilwyr ym maes addysg yn gyffredinol, o ran ymchwilwyr sydd hefyd yn siarad Cymraeg – mae'r sefyllfa yn argyfyngus. Dydw i ddim yn gwybod faint o'r 37 sydd yn siarad Cymraeg ond nifer go fach fe dybiwn i.

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Agenda Ymchwil	Research Agenda
Agenda ar gyfer Cymru	An agenda for Wales
Strategaeth ar gyfer ei gyflawni – arian, amser, cyfraniad AU.. I	A strategy for delivery – funding, time, involvement of HE..

Mi hoffwn droi am funud neu ddau at yr angen am agenda ymchwil. O fewn Cymru ddatganoledig, credaf fod yna fwy o angen am ymchwil addysgol nag a fu erioed o'r blaen a buaswn yn dadlau y dylai ymchwil i addysg ddwyieithog fod yn uchel ar yr agenda hynny.

Credaf mai nid mater i unigolyn yw llunio'r agenda ond credaf yn gryf fod angen agenda. Credaf fod angen dod â'r rhan-ddeiliaid at ei gilydd – yn arolygwyr, athrawon, prifathrawon, undebau, ymchwilwyr, hyfforddwyr

athrawon, rhieni, llywodraethwyr ac adnabod yr hyn sydd gwir angen craffu arno.

Credaf y dylid sicrhau fod yna arian ar gael i fynd i'r afael a'r agenda hynny ac amodau yn eu lle i sicrhau fod ymchwilwyr yn ein prifysgolion a chyfle gwirioneddol i gyfrannu at y gwaith. Os nad wyf wedi camddeall, mae'n bosibl y gwelwn ddatblygiadau yn y cyfeiriad hynny cyn bo hir a dwi'n meddwl y buasai hynny i'w groesawu.

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Blaenoriaethau?
Priorities?

Cymraeg fel Ail Iaith
Welsh as a 2nd Language



Yn olaf, hoffwn awgrymu un neu ddau o agweddau y credaf, yn bersonol, y dylai fod ar unrhyw agenda ymchwil ac sy'n ymwneud yn benodol â thema y gynhadledd - sef addysgu a dysgu dwyieithog ar gyfer Cymru gyfoes.

Tra'n gallu ymfalchïo ar sawl lefel am yr hyn o gyflawnwyd mewn perthynas ag addysg ddwyieithog yng Nghymru, mae'n ymddangos i mi fod angen meddwl yn greadigol a chymharol chwyldroadol os am sicrhau cynnydd sylweddol pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg.

Yn bersonol, 'rwyf o'r farn fod maes dysgu Cymraeg fel ail iaith yn faes sy'n haeddu sylw arbennig.

Dengys ffigurau Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007), o blith yr holl ddisgyblion yng Nghymru yng ngrwpiau blwyddyn 7–11 yr ysgolion uwchradd a gynhelir, fod Cymraeg yn cael ei addysgu fel iaith gyntaf 15.4 y cant, ac fel ail iaith i 83.7 ohonynt, tra bod a 0.9 y cant yn dod i ben â

pheidio ei hastudio o gwbwl. Hynny yw, mae'r rhan fwyaf, o ddigon, o ddisgyblion ein hysgolion uwchradd, felly, yn dysgu Cymraeg fel ail iaith.

Eto, fe wyddom fod ansawdd dysgu Cymraeg fel ail iaith wedi bod yn destun pryder ers blynyddoedd.

Yn eu hadroddiad blynyddol diweddaraf, nododd Estyn:

'*Mewn ysgolion uwchradd, mae perfformiad Cymraeg fel ail iaith yn dal yr un mor wan ag yn y blynyddoedd blaenorol, ac mae'n waeth nawr nag yr oedd yn y gorffennol. Fe wnaethon ni adrodd y llynedd bod rhai diffygion pwysig gan bron i hanner y gwaith. Eleni, mae diffygion pwysig mewn dwy ran o dair o waith disgyblion mewn Cymraeg fel ail iaith. Mae'r addysgu mewn Cymraeg fel ail iaith yn waeth o lawer nag mewn pynciau eraill (Estyn, Adroddiad Blynyddol 2007-8, 2009*)

Welai ddim fod angen tystiolaeth gadarnach fod y maes hyn yn haeddu sylw.

Coleg Prifysgol y Drindod
Trinity University College

Blaenoriaethau?	Priorities?
Modelau dysgu ac addysgu dwyieithog	Models for bilingual learning and teaching
Asesu	Assessment
Y cyfnod Sylfaen	Foundation Phase
Llwybrau 14-19	14-19 Pathways

I orffen , hoffwn awgrymu 4 maes arall dwi'n meddwl sy'n haeddu sylw.

Mae gwaith ymchwil Marlyn a'i thîm wedi dangos sut y mae ein pobl ifanc yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn gwbwl naturiol ochr yn ochr ond eto, mae'n cyfundrefn addysg yn dueddol o gadw'r ddwy iaith ar wahân. Mi wn

fod yna ddadleuon cryf yn erbyn yr hyn a ellir gael ei ddehongli fel glastwreiddio profiadau Cymraeg - ac o fewn rhai cyd- destunau gallaf ddeall hynny yn llwyr.

Mewn cyd-destunau eraill, fodd bynnag, credaf fod yna le i arbrofi gyda gwahanol fodelau ar addysg ddwyieithog. Er ein bod yn cael ein hadnabod fel gwlad sydd wedi llwyddo i atal – i raddau beth bynnag – y dirywiad yn ein hiaith frodorol, tlawd yw ein hanes o ran arbrofi ac ymchwilio i wahanol fodelau o addysgu dwyieithog a chredaf yn gryf fod angen gwneud mwy o waith ymchwil mewn perthynas â hynny.

Agwedd arall yr hoffwn yn bersonol ein gweld yn ymchwilio iddo yw'r ffordd yr ydym yn asesu ein pobl ifanc. Mae nifer ohonynt yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau dwyieithog ond eto, 'rydym yn dueddol o fynnu eu bod yn defnyddio un iaith ar gyfer asesiadau ffurfiol. Oni ddylem adael i'r disgyblion dwyieithog ddefnyddio yr holl adnoddau ieithyddol sydd ganddynt i arddangos eu cyrhaeddiad? Sut mae gwneud hyn?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn ddatblygiad go chwyldroadol a hynod bwysig. Mi wn nad oes llawer ohonoch yn ymwneud â'r Cyfnod hyn yna mae yna botensial aruthrol i datblygu caffael ein pobl ifanc ar y Gymraeg. Mae'n gyfnod sy'n galw am ymchwil sylweddol iawn ar sawl lefel ac i sawl agwedd – gan gynnwys y maes sy'n ymwneud, wrth gwrs, â datblygu'r Gymraeg.

Ac yn olaf ac yn fwyaf perthnasol o ran y gynhadledd yma , mae gennym y Llwybrau Dysgu. Mae'r datblygiad hyn hefyd wrth gwrs yn cynnig cyfleoedd arbennig iawn i'n pobl ifanc. Ond mae yma fygythiadau yn ogystal â chyfleoedd o ran y ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog.

'Rwy'n ymwybodol fod addysg bellach, fodd bynnag, yn faes y mae nifer fawr ohonoch yn fwy cyfarwydd ag ef na mi ac 'rwy'n siŵr y bydd yna drafod pellach ar y cyfnod hynny nes 'mlaen.

Mi orffennaf felly drwy ddiolch i chi am eich gwrandawiad a gan edrych ‘mlaen ar gael drafod rhai agweddau ymhellach yn ystod gweddill y dydd.